Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Sion Cwilt
# Synod Inn
# Llandysul
# Ceredigion
# SA44 6JZ

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Sion Cwilt

Lleolir Ysgol Bro Siôn Cwilt ger pentref Y Synod, yn Llandysul, yn awdurdod lleol Ceredigion. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 117 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 13 disgybl oed meithrin amser llawn a 13 disgybl sy'n mynychu'n rhan-amser. Tua 30% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gartrefi lleiafrifol ethnig. Tua 8% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 30% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ar ôl cyfnod fel pennaeth dros dro, penodwyd y pennaeth i'w swydd yn barhaol ym mis Ebrill, 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae amgylchedd gofalgar a hapus iawn yn Ysgol Bro Sïon Cwilt. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Un o gryfderau'r ysgol yw cwrteisi a pharch y disgyblion at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau ac adnoddau addas sy'n bodloni gofynion rhan fwyaf y disgyblion. O ganlyniad, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau llwyddiant i bob disgybl a hybu eu Cymreictod. Mae'r parch ac ethos o gydweithio agos yn amlwg rhwng yr holl staff.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob disgybl yn derbyn her briodol i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn arbennig y rhai mwy galluog

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion mewn iaith a datblygiad mathemategol wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol yn is na'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg ac maent yn defnyddio ystod briodol o eirfa pan fyddant yn sgwrsio gydag oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gweithgareddau ffurfiol ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn adeiladu geiriau yn ofalus ac yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn darllen gyda mynegiant clir gan ymateb yn effeithiol i atalnodi. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn trin llyfrau ffeithiol yn dda i'w helpu i ddod o hyd i wybodaeth. Er enghraifft, mae gan rai ddiddordeb mawr yn y gofod ac maent yn darllen ystod o lyfrau i gefnogi eu hastudiaethau yn y maes hwn**.**

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn barhaus. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml, gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir ac yn atalnodi'n bwrpasol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol yn y ddwy iaith, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Mae llawer yn defnyddio ystod eang o eirfa'n llwyddiannus i gyfoethogi'u hysgrifennu. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r nifer helaeth o daflenni gwaith a ddefnyddir yn y ddau gyfnod yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu estynedig y disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd llwyddiannus o'u medrau llythrennedd mewn meysydd amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu darnau effeithiol am y 1940au a'r disgyblion hŷn yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig diddorol ar hanes Laura Ashley.

Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o nodweddion siapiau ac yn defnyddio unedau safonol yn gywir wrth fesur. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol yn hyderus i drafod eu gwaith, ac mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu, yn gadarn. Maent yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ar

ffurf siartiau bar. Mae llawer o ddisgyblion yn trosglwyddo eu medrau mathemategol yn llwyddiannus i bynciau eraill. Er enghraifft, maent yn cofnodi a chymharu tymheredd mewn dinasoedd fel Llundain ac Efrog Newydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth ac maent yn hyderus wrth reoli tegan wrth iddo ddilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus, er enghraifft i chwilio am wybodaeth ar fywyd Twm Siôn Cati. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cronfa ddata yn ddeallus wrth ddarganfod faint o chwaraewyr tîm rygbi Cymru sydd dros 30 oed. Gall rhan fwyaf y disgyblion hŷn ddefnyddio taenlenni yn effeithiol i ddarganfod elw menter busnes yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth eang a chadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn deall sut i fyw a bwyta'n iach. Maent yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amser egwyl, er enghraifft yng nghampau'r ddraig a'r clwb rhedeg. Mae gan y grŵp ysgol iach gynlluniau effeithiol, fel hybu'r arfer o yfed digon o ddŵr, i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud dewisiadau iach wrth yfed a bwyta. Mae'r cyfleoedd i fynd ar deithiau preswyl, er enghraifft i Bentre Bach a Llangrannog, yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad eu medrau cymdeithasol a'u ffitrwydd.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda yn y gwersi ac amser egwyl. Nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch mae disgyblion yn eu dangos tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol ac mae disgyblion hŷn yr ysgol yn dangos gofal am y disgyblion iau yn llwyddiannus ar yr iard. Mae'r disgyblion yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i leisio barn. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen mae'r dosbarthiadau yn cynnal cyfarfodydd i ddisgyblion fynegi barn am y gweithgareddau yr hoffent eu gwneud yn yr ardaloedd dysgu parhaus. Mae disgyblion hefyd yn creu holiaduron yn hyderus i gywain barn eu cyfoedion am y gweithdrefnau mae'r ysgol yn eu defnyddio i roi adborth iddynt am eu gwaith. Mae hyn yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb am wella'u gwaith eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion yn derbyn cyfrifoldebau ar amryw o bwyllgorau. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor eco a phwyllgor hawliau'r plentyn yn cyfrannu'n fuddiol i fywyd yr ysgol ac yn sicrhau bod eu cyfoedion yn derbyn gwybodaeth am faterion pwysig sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig ac yn ymateb yn dda i'r ethos gofalgar a chynhwysol sy'n rhan annatod o fywyd yr ysgol. O oed cynnar, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, er enghraifft trwy drafod meini prawf llwyddiant ar ôl creu, perfformio a recordio rap ar lafar yn y cyfnod sylfaen.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn paratoi, trefnu a strwythuro'u gwersi'n effeithiol. Mae'r athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o strategaethau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn llwyddiannus ac yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau dysgu. Mae'r athrawon yn defnyddio dulliau holi treiddgar i annog y disgyblion i roi atebion estynedig. Maent yn darparu gweithgareddau ac adnoddau addas sy'n gweddu'n dda i ddiddordebau a galluoedd rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r holl staff yn manteisio ar gyfleoedd i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at gyfoethogi eu medrau llafaredd.

Mae'r berthynas hyfryd sy'n bodoli rhwng yr athrawon, y staff ategol a'r disgyblion yn annog parch a chwrteisi ac yn arwain at yr ethos cefnogol a'r awyrgylch gweithgar sydd mor amlwg yn y dosbarthiadau. Er hynny, ar adegau, nid yw'r athrawon yn cynnig digon o her i'r lleiafrif o'r disgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn arbennig y rhai mwy galluog.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn erbyn meini prawf llwyddiant. Mae'r athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol a rheolaidd i ddisgyblion ar eu gwaith. Trwy wneud hyn, maent yn cynnig arweiniad clir iddynt ddeall pa mor dda y maent yn cyflawni a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddewis targedau priodol ar gyfer gwella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu effeithiol sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth yn cyflawni gofynion y cyfnod sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio gweithgareddau ysgogol trwy gyfrwng themâu diddorol. Maent yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gwaith. Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd da i bleidleisio a dewis themâu ar gyfer y tymor. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn wedi dewis 'ffasiynau' fel thema y tymor hwn.

Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gadarn. Mae ystod eang o gyfleoedd da i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a TGCh ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r defnydd sylweddol o daflenni gwaith yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu estynedig ychydig o ddisgyblion.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r elfen Gymreig ei hyrwyddo'n effeithiol. Rhoddir lle blaenllaw i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy gystadlu yn eisteddfod yr Urdd ac eisteddfodau lleol a thrwy wrando ar ymwelwyr i'r ysgol yn rhannu eu profiadau am faterion diddorol. Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus trwy gynnig amrywiaeth eang o ymweliadau sy'n ymwneud â gwaith y tymor i'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn cael cyfleoedd blynyddol i ymweld â gwersyll Llangrannog a chanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd yn ogystal â mannau eraill sy'n ymwneud â thema'r tymor. Mae'r ysgol yn darparu'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion, trwy gynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu am artistiaid a cherddorion o Gymru. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer celf, yn arbennig, yn arwain at waith creadigol o safon uchel.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus. Mae'r staff yn cynnig cymorth a chefnogaeth lwyddiannus i'r disgyblion ac yn eu hannog i ymfalchïo yn eu gwaith ac i gyfrannu'n sylweddol at y gweithgareddau amrywiol sy'n digwydd yno. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda nhw. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda'r rhieni yn rheolaidd trwy gylchlythyron a'r wefan. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson hyn, sy'n fodd iddynt ddeall yn well sut i gefnogi eu plant, er enghraifft gyda'u gwaith cartref. Mae'r ysgol yn casglu ac ystyried safbwyntiau rhieni yn gyson trwy holiaduron a chyfarfodydd buddiol.

Caiff y disgyblion nifer o gyfleoedd i ysgwyddo cyfrifoldebau trwy fod yn aelodau o wahanol gynghorau neu grwpiau. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrannu'n gyson o fewn eu cymuned.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach ac mae'r staff yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei gyfoethogi drwy gynnig gwahanol brofiadau fel pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae staff yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio yn y gwasanaethau ar faterion pwysig fel 'Gwerthoedd'. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd addas i'r disgyblion ystyried y gwahaniaethau a'r tebygrwydd sydd rhyngddynt a'u cyfoedion. Mae'r ysgol yn atgyfnerthu'r neges hon yn effeithiol drwy roi pwyslais penodol ar hawliauplant. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o agweddau crefyddol, moesol a diwylliannol.

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol i olrhain ac asesu cynnydd a lles disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ganlyniadau profion yn hyderus i gynllunio a darparu cefnogaeth i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth briodol iddynt. Mae targedau clir a mesuradwy ar eu cyfer ac mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu hadolygu'n gyson. Mae'r staff ategol yn ymwybodol iawn o dargedau gwella disgyblion penodol ac maent yn eu cefnogi'n dda i'w cyrraedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar sicrhau llwyddiant i bob disgybl a hybu eu Cymreictod. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni i gyflawni'r weledigaeth hon.

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae ganddynt swydd ddisgrifiadau clir a chyfredol. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn trafod safonau a lles y disgyblion gan ganolbwyntio'n dda ar ymateb i'r blaenoriaethau gwella.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn. Mae'r amcanion yn briodol ac yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau datblygu'r ysgol ynghyd â gofynion proffesiynol unigol y staff.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae'n cyflwyno strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn arbennig eu medrau TGCh, a'u medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, a thrwy'r ymweliadau hyn a'u rhan yn y weithdrefn hunanarfarnu, maent yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu sy'n rhoi ystyriaeth dda i ystod o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys cywain safbwyntiau disgyblion a rhieni, dehongli data'r ysgol, monitro gwersi a chraffu ar lyfrau'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae gan yr ysgol amserlen flynyddol addas ar gyfer monitro sy'n sicrhau bod pob elfen yn cael sylw dros amser a bod pob un o'r rhanddeiliaid yn cyfrannu at y weithdrefn hunanarfarnu.

Mae'r cyswllt rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn glir. Mae'r cynllun yn cynnwys ffocws pwrpasol ar wella deilliannau disgyblion ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant a chyfrifoldebau clir. Mae trefniadau effeithiol yr arweinwyr a'r llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn monitro prif flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi talu digon o sylw i gynllunio ar gyfer ymestyn safonau'r disgyblion mwy galluog.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a staff ategol. Mae'r defnydd o 'Gyfeillion Cwricwlaidd' ar draws yr ysgol yn gwella arbenigedd staff mewn meysydd fel cerdd, addysg gorfforol ac anghenion dysgu ychwanegol, yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y meysydd hyn.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a dysgu. Mae staff ategol yn darparu cefnogaeth gadarn i athrawon ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i safonau cyrhaeddiad a lles y disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau eu rheoli'n dda. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn fuddiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Datblygu Disgyblion i wella ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a lles y rheini sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd priodol. Mae'r amgylchedd yn ysgogol ac mae'r arddangosfeydd yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon wedi datblygu ardal allanol y cyfnod sylfaen yn bwrpasol ac mae'n cynnwys offer diddorol sy'n ehangu eu profiadau dysgu yn fuddiol. Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2017